



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

| Disgrifiad | Llun | Nodiadau |
|------------|------|----------|
|------------|------|----------|

Barnwyr 4, 5



- 1 Yn ystod amser Josua roedd yr Israeliaid wedi concro llawer o'r wlad roedd Duw wedi ei addo iddyn nhw. Ond, roedd y Canaaneaidd dal i reoli rhai ardaloedd. Dewisodd yr Arglwydd farnwyr i arwain ei bobl ac i'w helpu nhw i fyw yn ufudd i'w ddeddfau.



- 2 Pan oedd y bobl yn ufudd i arweiniad y barnwr ac yn dilyn ffyrdd yr Arglwydd roedden nhw'n mwynhau heddwch ac yn ennill brwydrau.



- 3 Ond, pan oedd y barnwr yn marw roedd y bobl yn troi cefn ar Dduw ac yn addoli duwiau ffals. Wedyn doedd dim heddwch yn y wlad ac roedd eu gelynion yn ennill y brwydrau yn eu herbyn.




-
- 4 Ar ôl i Ehwd farw, dyma bobl Israel unwaith eto yn gwneud beth oedd yn ddrwg yng ngolwg yr ARGLWYDD wrth addoli duwiau ffals. Felly dyma'r Arglwydd yn gadael i Jabin eu rheoli nhw — un o frenhinoedd Canaan.



-
- 5 Enw cadfridog ei fyddin oedd Sisera ac roedd yn byw yn Haroseth-hagoim.



-
- 6 Dyma bobl Israel yn gweiddi ar yr ARGLWYDD am help am fod y brenin Jabin wedi eu cam-drin nhw'n ofnadwy ers ugain mlynedd. Roedd naw cant o gerbydau rhyfel haearn gan ei fyddin.



-
- 7 Debora, gwraig Lappidoth, oedd yn arwain Israel ar y pryd. Roedd hi'n broffwydes.



-
- 8 Byddai'n eistedd i farnu achosion pobl Israel dan Goeden Balmwydd Debora oedd rhwng Rama a Bethel ym mryniau Effraim. Byddai'r bobl yn dod ati yno, i ofyn iddi setlo achosion rhyngddyn nhw.



-
- 9 Dyma hi'n anfon am Barac fab Abinoam o Cedesh ar dir llwyth Nafftali.



-
- 10 Dwedodd wrtho, "Mae'r ARGLWYDD yn gorchymyn i ti fynd â deg mil o ddynion o lwythau Nafftali a Sabulon i fynydd Tabor, i baratoi i fynd i ryfel. Bydda i'n arwain Sisera, cadfridog byddin y brenin Jabin, atat ti at Afon Cison. Bydd yn dod yno gyda'i gerbydau rhyfel a'i fyddin enfawr. Ond ti fydd yn ennill y frwydr."



-
- 11 Atebodd Barac, "Dw i ddim ond yn fodlon mynd os ei di gyda mi." "lawn," meddai hi, "gwna i fynd gyda ti. Ond os mai dyna dy agwedd di fyddi di'n cael dim o'r clod. Bydd yr ARGLWYDD yn trefnu mai gwraig fydd yn delio gyda Sisera."



-
- 12 Felly aeth Debora gyda Barac i Cedesh. A dyma Barac yn galw byddin at ei gilydd o lwythau Sabulon a Nafftali. Aeth deg mil o ddynion gydag e ac aeth Debora gydag e hefyd.



-
- 13 Pan glywodd Sisera fod Barac wedi arwain byddin at Fynydd Tabor, dyma fe'n galw'r fyddin gyfan oedd ganddo yn Haroseth-hagoim at ei gilydd. Yna eu harwain, gyda'r naw cant o gerbydau rhyfel haearn, at Afon Cison. Yna dyma Debora yn dweud wrth Barac, "Heddiw mae'r ARGLWYDD yn mynd i roi Sisera yn dy ddwylo di! Mae'r ARGLWYDD ei hun wedi mynd o dy flaen di!"



-
- 14 A dyma'r ARGLWYDD yn gwneud i Sisera a'i holl gerbydau a'i fyddin banicio. Dyma Barac a'i fyddin yn ymosod arnyn nhw. (Roedd Sisera ei hun wedi gadael ei gerbyd, a ceisio dianc ar droed.) Aeth byddin Barac ar eu holau yr holl ffordd i Haroseth-hagoim, a cafodd milwyr Sisera i gyd eu lladd — gafodd dim un ei adael yn fyw.



-
- 15 Yn y cyfamser roedd Sisera wedi dianc i babell Jael, gwraig Heber y Cenead.



-
- 16 Aeth Jael allan i'w groesawu a dweud wrtho, "Tyrd yma, syr. Tyrd i orffwys yma gyda mi. Paid bod ag ofn!" Felly dyma Sisera yn mynd i mewn i'r babell a dyma Jael yn rhoi blanced drosto. Agorodd botel o groen gafr a rhoi diod o laeth iddo. Yna rhoddodd y flanced drosto eto.



-
- 17 Roedd Sisera wedi ymlâdd ac wedi syrthio i gysgu'n drwm. A dyma Jael yn cymryd peg pabell a morthwyl a mynd at Sisera'n dawel bach. Yna dyma hi'n bwrw'r peg drwy ochr ei ben i'r ddaear, a'i ladd.



-
- 18 Roedd Barac wedi bod yn dilyn Sisera. Pan gyrhaeddodd dyma Jael yn mynd allan i'w gyfarfod a dweud wrtho, "Tyrd yma i mi ddangos i ti'r dyn ti'n edrych amdano." Aeth Barac i mewn i'r babell gyda hi a dyna lle roedd Sisera yn gorwedd yn farw.



-
- 19 Ac o hynny ymlaen dyma'r Israeliaid yn taro'r Brenin Jabin yn galetach ac yn galetach, nes yn y diwedd roedden nhw wedi ei ddinistrio'n llwyr. Ysgrifennodd Debora gân i ddathlu'r fuddugoliaeth. Wedi hyn roedd yna heddwch yn y wlad am 40 mlynedd.



-
- 20 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution Share-alike 3.0 unported licence.

www.freebibleimages.org
